# Dirnad y Corff

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
## Dydd Iau 11 Mehefin 2020, Gŵyl Corff Crist

Roeddwn i mewn dau feddwl yr wythnos hon ynghylch fy llythyr bugeiliol. Roeddwn gymaint eisiau ysgrifennu atoch ynghylch y Drindod Sanctaidd, ond, mae heddiw hefyd yn ddydd gŵyl yng nghalendr yr Eglwys, gŵyl nad yw'n derbyn fawr o sylw erbyn hyn, Corpus Christi, neu fel rydym ni Anglicanwyr yng Nghymru'n hoffi ei galw Diolchgarwch am y Cymun Bendigaid. Felly, bydd yn rhaid i'r Drindod aros am wythnos.

Pan ysgrifennodd Sant Paul at Eglwys Corinth ynghylch eu dathliadau Ewcharistaidd, roedd yn siarad yn blaen ac yn eithaf llym ynghylch yr hyn oedd yn digwydd. "Bydded i ddyn ei holi ei hunan, ac felly bwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan. Oherwydd y mae'r sawl sydd yn bwyta ac yn yfed, os nad yw'n dirnad y corff, yn bwyta ac yn yfed barn arno'i hun." (1 Cor 11.28,29) Beth yw hyn am "ddirnad y Corff"? Rwy'n credu fod Paul yn golygu dau beth.

Yn gyntaf, er bod y Cymun yn bwydo'r rhai sy'n ei dderbyn, nid y bwriad oedd y byddai hynny'n weithred unigol. Mewn rhai enwadau eglwysig, mae gwin y Cymun yn cael ei rannu mewn cwpanau bach, unigol, ac yn nyddiau cynnar coronafeirws, awgrymwyd efallai y dylai'r Anglicanwyr hefyd rannu'r Ewcharist fel hyn. Roeddwn i yn erbyn hynny, oherwydd, i mi, mae'r symbolaeth o bawb yn dod at ein gilydd ac yn rhannu'r un cwpan yn pwysleisio fod gennym un Arglwydd ac Iachawdwr, ein bod yn yfed o'r un ffynnon o iachawdwriaeth a agorodd i ni ar Galfari, a bod Cymun yn cael ei rannu, nid gyda Duw yn unig, ond gyda'n gilydd. Rydym wedi'n clymu gyda'n gilydd mewn un Corff wrth dderbyn Cymun. Felly, dirnad y Corff yw cydnabod y ffaith hon, cydnabod, wrth dderbyn Cymun gyda'n gilydd bod ein perthynas ni ein hunain wedi newid; yn yr Arglwydd, rydym ni'n frawd a chwaer, yn ddi droi'n ôl ac yn dragwyddol, oherwydd ein bod wedi'n prynu gan Grist. Dyma un o'r rhesymau pam, er mor chwith yw colli'r Cymun, nad wyf yn meddwl ei bod yn iawn ei rannu'n ddarnau bychan, nac yn iawn ein bod ni'n gosod ein bara a'n gwin ein hunain o flaen y sgrîn. Mae ei fwyta a'i yfed fel petai'n rhywbeth preifat, mai rhodd i ni fel unigolion ydyw, yn anwybyddu'r agwedd gorfforaethol o'r hyn rydym yn ei wneud.

Yn ail, mae Paul yn gwbl glir nad bara a gwin cyffredin sy'n cael ei rannu wrth gymryd bara a gwin yr Ewcharist. "Cwpan y fendith yr ydym ni'n ei fendithio, onid cydgyfranogiad o waed Crist ydyw? A'r bara yr ydym yn ei dorri, onid cydgyfranogiad o gorff Crist ydyw?" (1 Cor 10.16) Mae Christnogion wedi dadlau ac wedi tywallt gwaed ers canrifoedd, ynghylch beth yn union yw'r newid sy'n digwydd i fara a gwin y Cymun yn yr Ewcharist, ac efallai fod llawer ohonom wedi dysgu cerdd fechan y Frenhines Elisabeth I sy'n ceisio cau pen y mwdl ar y drafodaeth. "His was the word that spake it, he took the bread and brake it, and what his word doth make it, that I believe and take it." I mi, mae'r ateb yn tardis Dr Who, sydd, fel ryw'n meddwl fod y rhan fwyaf o bobl yn gwybod, yn fwy y tu mewn na'r tu allan. Y tu allan, does dim newid i'w weld yn y bara a'r gwin. Ond trwy air a gorchymyn Crist, y tu mewn, mae holl drysorlys gras Duw yno, ac yn cael ei gynnig i ni fel rhodd Duw. Mae methu â dirnad y Corff yn methu â dirnad presenoldeb gwirioneddol Duw yn yr elfennau ewcharistaidd hefyd.

Mae Cristnogion Catholig yn tueddu i ddisgrifio'r Ewcharist fel pinacl addoliad Cristnogol. Mae hynny nid yn unig oherwydd ein bod wrth ddathlu'r Ewcharist yn ufuddhau i orchymyn penodol Crist, ond oherwydd mai hon yw'r sagrafen fawr lle mae'r Cristion yn cael maeth drwy rodd gras Duw. Mae rhai eglwysi'n gweld eu hunain yn bennaf fel Eglwysi'r Gair, ble mae'r Beibl yn cael ei bregethu'n ddeddfol; mae eraill yn disgrifio'u hunain fel eglwysi sagrafennol, ble mae'r cyfan o'r pwyslais ar ddathlu'r Ewcharist yn aml. Mae Anglicanwyr, fel arfer, yn gosod eu hunain yn y canol fel Eglwys y Gair a'r Sagrafen. Yn wreiddiol, ystyr y gair Lladin "sacramentum" oedd rhywbeth a oedd wedi'i gysegru i Dduw, ac wedi'i ildio'n gyfan gwbl i'r dwyfol. Fodd bynnag, fel llawer o bethau, newidiodd Cristnogion ychydig ar ystyr y gair, daeth Sagrafen yn weithred wedi'i neilltuo ar gyfer Duw a, thrwyddi, mae Duw yn rhoi ei hun i ni. Rydym ni'n rhoi bara a gwin i Dduw; mae Duw yn eu trawsnewid, ac yn eu rhoi'n ôl i ni, i'n bwydo gyda'i ras a'i nerth, i'n galluogi i fyw mewn ffydd. Rwy'n edrych ymlaen at y diwrnod pan fyddwn yn gallu cyfranogi yn yr Ewcharist unwaith eto.

Fodd bynnag, mae'r cydsyniad o sagrafen yn mynd ymhellach. Mae cariad Duw yn dragwyddol ac yn hael ac mae'i ras, ei agwedd gariadus, angerddol, nerthol tuag atom, yn llifo trwy'r greadigaeth. Bod yn Gristion sagrafennol yw gweld gras Duw o'n cwmpas, yn cael ei ffrydio atom ni a thrwom ni mewn myrdd o ffyrdd. Wrth i ni gofio heddiw sut mae Crist yn rhoi ei hun i ni yn y "sagrafen fendigedig o gorff a gwaed Crist", gadewch i ni agor ein hunain i fod yn sianel o'i gariad – i gymydog, i ffrind, i aelod o'r teulu – hyd yn oed o fewn cyfyngiadau pellter cymdeithasol, a dirnad fod Duw wrth ei waith mewn mwy o ffyrdd nag y gallwn ni fyth ei amgyffred.

+Gregory Llanelwy